

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS
FAWRTH 8FED O FAI 2018 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Siân Davies (Cadeirydd), Mike Denman, Clwyd Thomas, Arwel Jones, Wyn Wilkinson, Iona Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Ian Hession, Brynle Lloyd, Dewi Roberts a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Cyngorydd Wyn Wilkinson ar gais cynllunio 8A isod.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 13eg o Fawrth a 10fed o Ebrill 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio i godi adeilad allanol ar gyfer storio cyffredinol a storio ceir yn 4 Rhyd-y-Cilgwyn, Rhewl.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Addasiadau i sied amaethyddol yn Coed Duon Chalet, Llanrhaeadr.
2. Codi ystafell haul i flaen yr annedd yn Gwel-y-Foel, Rhewl.

5. ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2018/19.

Etholwyd Cyngorydd Ian Hession yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19.

6. ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2018/19.

Etholwyd Cyngorydd Arwel Jones yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £11,520.00.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r precept am y flwyddyn 2018/19 - £3,058.00.

C. Arwyddwyd y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyffredinol "Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2018.

D. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2018 - £400.00.
2. Treth y cyflog am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2018 - £100.00.
3. BHIB Ltd. - Yswiriant blynyddol y Cyngor - £702.74.
4. Harold Smith - Archwiliwr Mewnol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £180.00.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Tystysgrif ddatblygu gyfreithion bresennol ar gyfer newid defnydd tir drwy leoli carafán er mwyn darparu llety gwyliau ym Mhantglas Ganol, Bontuchel.

B. Adeiladu bynceri silwair a gwaith cysylltiedig ym Mhen-y-bryn, Llanynys.

C. Tynnu simnai, gosod pibell haul 4 ffenestri to i ofod i greu llety byw ychwanegol yn Goed Duon Chalet, Llanrhaeadr.

D. Codi estyniad i'r adeilad amaethyddol presennol ar gyfer gwartheg ym Mhlas-y-ward, Rhewl.

9. GOHEBIAETH.

A. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi trefnu “Sesiwn Hyfforddiant Cynllunio” ar ddydd Iau 24ain o Fai 2018 yn Caledfryn, Dinbych am 6.00 p.m.

B. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Reolwr Asedau Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am syniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Rhewl ar o lei chau yn haf 2018. Penderfynwyd ar y syniad i gael yr adeilad fel adeilad cymunedol.

C. Mae'r Cynghorydd Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r gwerthiant bocs ffon gyhoeddus BT yn Llanynys.

D. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Un Llais Cymru am dal aelodaeth 2018/19.

E. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

10. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Derbyniwyd gwybodaeth fod “Llwybrau Cyhoeddus” rhwng Rhewl a Llanynys eisiau sylw a phenderfynwyd y Clerc gyrru'r wybodaeth ymlaen i'r Rheolwr Gwybodaeth Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 10fed o Orffennaf 2018 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.